

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A44
(FFORDD LLANBADARN, LLANBADARN
FAWR, CEREDIGION) (GWAHARDD
CERBYDAU DROS DRO) 2024**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A44, neu gerllaw iddi, yn Llanbadarn Fawr, Ceredigion.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A44 o'r enw Ffordd Llanbadarn sy'n ymestyn o'i chyffordd â Choedlan Plascrug hyd at bwynt 100 metr i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd honno.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de-ddwyrain y mae cau'r darn o'r gefnffordd yn effeithio arnynt fydd i'r gorllewin ar yr A487 Stryd y Dollborth, cyn mynd i'r de-orllewin ar hyd Stryd Thespis, Ffordd Alexandra a Dan Dre, yna i'r de-ddwyrain ar hyd Stryd y Bont a Ffordd Penparcau i ymuno â'r A4120 Heol y Bont i'r gogledd-ddwyrain cyn ailymuno â'r A44.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd-orllewin y mae cau'r darn o'r gefnffordd yn effeithio arnynt fydd i'r de-ddwyrain ar yr A4120 Heol y Bont tua'r de-orllewin, cyn mynd i'r gogledd-orllewin ar hyd Ffordd Penparcau a Stryd y Bont, yna i'r gogledd-ddwyrain ar hyd y Stryd Fawr, Sgwâr Owain Glyndŵr, Rhodfa'r Gogledd a Stryd y Dollborth i ailymuno â'r A44.

Bydd y gwaharddiad dros dro, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn weithredol dros nos (rhwng 21:00 o'r gloch a 05:00 o'r gloch) o 26 Chwefror 2024 hyd 27 Chwefror 2024, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod yr amseroedd a'r dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A44 TRUNK ROAD (LLANBADARN
ROAD, LLANBADARN FAWR,
CEREDIGION) (TEMPORARY
PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2024**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A44 trunk road at Llanbadarn Fawr, Ceredigion.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles from proceeding on the length of the A44 trunk road known as Llanbadarn Road that extends from its junction with Plascrug Avenue to a point 100 metres north-west of that junction.

The alternative route for south-eastbound vehicles affected by the closure will be west onto the A487 Northgate Street, then in a south westerly direction along Thespian Road, Alexandra Road and Mill Street, then in a south-easterly direction along Bridge Street and Penparcau Road to join the A4120 Heol y Bont in a north-easterly direction to re-join the A44.

The alternative route for north-westbound vehicles affected by the closure will be south-east onto the south-westbound A4120 Heol y Bont, then in a north-westerly direction along Penparcau Road and Bridge Street, then in a north-easterly direction along Great Darkgate Street, Owain Glyndŵr Street, North Parade and Northgate Street to re-join the A44.

The temporary prohibition, which will be signed accordingly, will operate overnight (21:00 hours to 05:00 hours) from 26 February 2024 until the 27 February 2024 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the times and dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government

